

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWEITHGOR RHYDDFRAINT Y FWRDEISTREF

Cofnodion o gyfarfod y Gweithgor Rhyddfraint y Fwrdeistref a gynhaliwyd Dydd Mercher, 10 Ebrill 2019 am 3.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Gweithgor Rhyddfraint y Fwrdeistref Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr J Whitehurst, Swyddog Graddedig

1 YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am gollir cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Morgan, P. Jarman a J. James.

2 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

3 COFNODION

PENDERFYNWYD cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 GWOBR DINASYDDION DA

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu adroddiad i Aelodau a amlinellodd yr enwebiadau a dderbyniwyd mewn perthynas â Gwobrau Dinasyddion Da y Maer. Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod 45 o enwebiadau wedi'u derbyn, ar draws chwe categori. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod modd trosglwyddo unigolyn wedi'i enwebu i gategori arall, os yw'r gydnabyddiaeth y berthnasol i ddau gategori. Atgoffaodd yr Aelodau hefyd fod Aelodau wedi cynnig 'gwobr arbennig' ychwanegol yn y gorffennol pe hoffen nhw wneud hynny eto.

Gwnaeth Aelodau sylw am bob enwebiad a'r cyflawniadau ac ymrwymiad anhygoel mae pawb wedi'u dangos a chytunwyd y dylai pob unigolyn sydd wedi'i enwebu dderbyn llythyr gan y Maer yn cydnabod ei ymrwymadau.

Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** dyfarnu Gwobrau Dinasyddion Da i'r unigolion canlynol:

Gwasanaethau i'r Gymuned – Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Allan Blackburn

Cyflawniad Personol – Wynford Williams

Cyflawniad Artistig – Daniel Davies ac Ella Thomas

Cyflawniad ym Myd Chwaraeon – Sporting Marvels

Rhoi Cymorth i Eraill – Carfan Marie Curie

Gwasanaethau i Elusennau – Wayne Griffiths

Gwobr Cydnabyddiaeth Arbennig – Valerie Davies ac Amelia Gay.

Cyn dwyn y cyfarfod i ben, cadarnhaodd y swyddogion fod dyddiad y seremoni wobrwyo i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**